Drwy e-bost i bob ysgol a choleg yng Nghymru

Mehefin 2019

Annwyl gydweithiwr

## Arholiadau haf 2019

Hoffem ddiolch i chi a'ch cydweithwyr am eich rôl wrth gyflwyno cyfres arholiadau lwyddiannus. Mae'r gwaith marcio wedi hen ddechrau erbyn hyn wrth baratoi am y broses ddyfarnu, a gaiff ei chynnal yn ystod mis Gorffennaf cyn rhyddhau canlyniadau ym mis Awst.

Mae'r haf hwn yn nodi pwynt pwysig ar ein taith i ddiwygio cymwysterau TGAU a Safon Uwch yng Nghymru, wrth i gam olaf cymwysterau diwygiedig gael ei ddyfarnu am y tro cyntaf. Gallwch ddarllen fy mlog ar y diwygiadau ar ein gwefan.

Bydd saith pwnc TGAU[1] a phum pwnc Safon Uwch[2] yn cael eu dyfarnu am y tro cyntaf yr haf hwn. Dyfarnwyd Safon Uwch Mathemateg am y tro cyntaf yn haf 2018 i nifer fach o fyfyrwyr ar ôl blwyddyn o addysgu. Roedd hyn yn eithriad er mwyn rhoi'r opsiwn i fyfyrwyr astudio Safon Uwch Mathemateg ar ddiwedd Blwyddyn 12 cyn astudio Safon Uwch Mathemateg Bellach ym Mlwyddyn 13. Yn haf 2019 y dyfernir y cymhwyster am y tro cyntaf, ac wedi'i astudio gan garfan lawn Blwyddyn 13 (18 oed).

## Sicrhau safonau a thegwch ar gyfer haf 2019

Ein blaenoriaeth yw sicrhau y caiff safonau priodol eu pennu a'u cynnal dros amser ac ym mhob cymhwyster, er mwyn bod yn deg i fyfyrwyr yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol. Mae uwch-arholwyr yn CBAC yn pennu ffiniau graddau gan ddefnyddio

[1]Busnes, Cyfrifiadureg, Dylunio a Thechnoleg, Hanes, Astudiaethau'r Cyfryngau, Astudiaethau Crefyddol a Chymraeg Ail Iaith

[2]Dylunio a Thechnoleg, Mathemateg Bellach, Llywodraeth a Gwleidyddiaeth, Y Gyfraith, Astudiaethau'r Cyfryngau

**Qualifications Wales**
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 0333 077 2701

www.qualificationswales.org

**Cymwysterau Cymru**
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 0333 077 2701

gwybodaeth ystadegol ac enghreifftiau o waith myfyrwyr er mwyn gweld ble y dylid pennu ffiniau graddau allweddol ar gyfer pob cymhwyster.

Pan gaiff cymwysterau newydd eu dyfarnu am y tro cyntaf, ein blaenoriaeth yw sicrhau nad yw myfyrwyr dan fantais nac anfantais annheg o ganlyniad i unrhyw newidiadau. Er mwyn dyfarnu cymhwyster newydd am y tro cyntaf mae angen i'r bwrdd arholi gario safon y cymhwyster etifeddol ymlaen. Wedyn, mae'n rhaid i'r bwrdd arholi gynnal y safon honno mewn cyfresi arholiadau yn y dyfodol.  Eir ati i bennu a chynnal safonau yn yr un ffordd gan reoleiddwyr yn Lloegr a Gogledd Iwerddon ar gyfer cymwysterau TGAU a Safon Uwch. Ceir manylion am yr hyn a wna CBAC ar gyfer cymwysterau cymeradwy yng Nghymru ar wefan CBAC.

### Canlyniadau ysgolion

Mae ysgolion a cholegau wedi arfer gweld eu canlyniadau yn amrywio i ryw raddau o flwyddyn i flwyddyn. Mae llawer o ffactorau a all effeithio ar ganlyniadau ysgolion neu golegau, gan gynnwys gallu gwahanol garfannau o fyfyrwyr, newidiadau i'r personél addysgu neu'r dull o addysgu, neu newidiadau i'r amser a roddir i bwnc penodol ar y cwricwlwm. Fodd bynnag, pan fydd cymhwyster yn newid, gall fod mwy o amrywioldeb o flwyddyn i flwyddyn nag arfer yng nghanlyniadau ysgolion a cholegau unigol am eu bod, o bosibl, wedi cyflwyno'r cymhwyster newydd mewn ffyrdd gwahanol.

### Cofrestriadau

Gwnaethom gyhoeddi data ar nifer y cofrestriadau dros dro ar gyfer arholiadau TGAU, UG a Safon Uwch yr haf hwn ar 24 Mai 2019. Mae'r data hyn yn rhoi awgrym cynnar i ni o newidiadau mewn patrymau cofrestru, sy'n ddefnyddiol wrth ddehongli canlyniadau'r haf. Unwaith eto, mae rhai newidiadau sylweddol i'w gweld i'r patrymau cofrestru yng Nghymru. Yn arbennig, mae nifer cofrestriadau Blwyddyn 11 ar gyfer TGAU Saesneg Iaith, TGAU Cymraeg Iaith, TGAU Cymraeg Ail Iaith, TGAU Mathemateg a TGAU Llenyddiaeth Saesneg wedi cynyddu'n sylweddol. Mae'n debygol mai'r rheswm dros y cynnydd mewn cofrestriadau Blwyddyn 11 ar gyfer y cymwysterau hyn yw'r newid i fesurau perfformiad ysgolion o haf 2019, sydd ond yn caniatáu i ganlyniad cyntaf myfyrwyr gyfrif tuag at berfformiad ysgol.

Mae'r newidiadau i fesurau perfformiad ysgolion wedi arwain at wahaniaethau rhwng y grwpiau o fyfyrwyr sy'n sefyll y cymwysterau hyn. Mae'r gwahaniaethau hyn yn golygu y bydd yn bwysig cymryd gofal wrth ddehongli canlyniadau'r haf hwn ac wrth eu cymharu â blynyddoedd blaenorol.  Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad A.

## Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi

Mae adran Arholiadau 360 ein gwefan yn cynnig amrywiaeth o wybodaeth ddefnyddiol am y cymwysterau newydd a'r prosesau arholi a dyfarnu. Gobeithio y bydd y wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi ac rydym yn croesawu unrhyw adborth neu awgrymiadau sydd gennych am y ffordd y gallwn ychwanegu at y wefan. Rydym hefyd yn anfon diweddariadau rheolaidd i ysgolion a cholegau ar gymwysterau TGAU, Safon Uwch a chymwysterau eraill a reoleiddir gennym drwy ein cylchlythyr '*Y Llechen*'. Gallwch gofrestru i gael y cylchlythyr hwn ar ein gwefan.

## Dweud eich dweud!

Mae ein holiadur ar-lein, sy'n rhoi'r cyfle i fyfyrwyr, athrawon a darlithwyr roi adborth ar arholiadau'r haf, ar agor tan 5 Gorffennaf. Rydym yn croesawu'r adborth a roddwyd hyd yn hyn a byddwn yn ei ddefnyddio i lywio ein gwaith monitro. Rydym hefyd yn rhannu'r adborth a gawn â CBAC er mwyn iddo ei ystyried fel rhan o'i adolygiad o arholiadau'r haf. Anogwch eich staff a'ch myfyrwyr i rannu eu barn â ni.

## Rhyddhau canlyniadau

Hoffem atgoffa ysgolion a cholegau fod canlyniadau'n gyfrinachol tan y diwrnodau canlyniadau swyddogol (15 Awst ar gyfer TAG a 22 Awst ar gyfer TGAU) ac na ddylid eu rhannu ag unrhyw unigolyn na sefydliad y tu allan i'ch ysgol neu'ch coleg cyn y dyddiadau hynny.

Gobeithio y bydd y wybodaeth hon o ddefnydd i chi. Os oes gennych unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwybodaeth a fyddai'n ddefnyddiol i chi yn y dyfodol, mae croeso i chi gysylltu â ni yn ymholiadau@cymwysteraucymru.org.

Yn gywir

**Philip Blaker**

**Prif Weithredwr**

## Atodiad A: Cofrestriadau TGAU Haf 2019

### TGAU Mathemateg a TGAU Mathemateg: Rhifedd

Mae cyfanswm y cofrestriadau ar gyfer TGAU Mathemateg a TGAU Mathemateg: Rhifedd wedi cynyddu'r haf hwn o gymharu â haf 2018 (16.0% a 7.4% yn y drefn honno). Mae Tabl 1 yn dangos bod newidiadau wedi bod yng nghyfansoddiad grŵp blwyddyn cofrestriadau rhwng 2017 a 2019.

Ar gyfer TGAU Mathemateg, mae cofrestriadau Blwyddyn 10 wedi cynyddu 14.7% rhwng 2018 a 2019 tra gwelwyd cynnydd o 17.2% yng nghofrestriadau Blwyddyn 11. Ar gyfer TGAU Mathemateg: Rhifedd, mae cofrestriadau Blwyddyn 10 ac 11 wedi cynyddu (9.8% ac 8.8% yn y drefn honno).

Mae cymharu cofrestriadau Blwyddyn 12 ac uwch rhwng 2018 a 2019 yn dangos cynnydd o 11.4% ar gyfer TGAU Mathemateg a gostyngiad o 12.0% ar gyfer TGAU Mathemateg: Rhifedd.

**Tabl 1 Cofrestriadau TGAU Mathemateg a Mathemateg: Rhifedd yn ôl grŵp blwyddyn**

| Pwnc | Blwyddyn | Blwyddyn 9 neu is | Blwyddyn 10 | Blwyddyn 11 | Blwyddyn 12 | Blwyddyn 13 neu uwch | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mathemateg** | | | | | | | |
| | 2019 | 25 | 690 | 27,530 | 2,750 | 3,765 | 34,755 |
| | 2018 | 10 | 610 | 23,495 | 2,770 | 3,085 | 29,970 |
| | 2017 | 20 | 10,415 | 25,940 | 2,240 | 3,610 | 42,230 |
| **Mathemateg: Rhifedd** | | | | | | | |
| | 2019 | * | 1,940 | 21,285 | 645 | 820 | 24,695 |
| | 2018 | * | 1,765 | 19,565 | 715 | 950 | 23,000 |
| | 2017 | 10 | 11,135 | 20,455 | 520 | 1,050 | 33,170 |

*Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu – Casgliad Cofrestriadau yn ôl Grŵp Blwyddyn, 2018 a hwyrach –Cymwysterau Cymru; 2017 –* Ofqual

### TGAU Saesneg Iaith

Cyfanswm y cofrestriadau ar gyfer TGAU Saesneg Iaith yn haf 2019 yw 36,405, sy'n gynnydd o 8,515 (30.5%, gweler Tabl 2). Y cynnydd yng nghofrestriadau Blwyddyn 11 sy'n gyfrifol am y cynnydd hwn.

Yn yr haf cyntaf y cafodd cymhwyster TGAU Saesneg Iaith ei ddyfarnu (2017) roedd nifer fawr o gofrestriadau Blwyddyn 10, ac ni ddychwelodd llawer ohonynt i sefyll yr arholiad fel disgyblion Blwyddyn 11 yn haf 2018. Hefyd, yn haf 2018, bu gostyngiad mawr yng nghofrestriadau Blwyddyn 10. Yr haf hwn, mae cofrestriadau Blwyddyn 10

wedi gostwng ymhellach, a chofrestriadau Blwyddyn 11 yw mwyafrif carfan genedlaethol Blwyddyn 11 (tua 33,000 yn ôl yr amcangyfrif).

Mae cymharu cofrestriadau Blwyddyn 12 ac uwch rhwng 2018 a 2019 yn dangos cynnydd bach o 5.2%.

**Tabl 2 Cofrestriadau TGAU Saesneg Iaith yn ôl grŵp blwyddyn**

| Saesneg | Blwyddyn 9 neu is | Blwyddyn 10 | Blwyddyn 11 | Blwyddyn 12 | Blwyddyn 13 neu uwch | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2019 | 10 | 270 | 29,320 | 2,980 | 3,830 | 36,405 |
| 2018 | 5 | 805 | 20,610 | 2,730 | 3,735 | 27,890 |
| 2017 | 10 | 21,090 | 31,115 | 2,945 | 3,885 | 59,045 |

*Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu – Casgliad Cofrestriadau yn ôl Grŵp Blwyddyn, 2018 a hwyrach –Cymwysterau Cymru; 2017 –* Ofqual

## TGAU Llenyddiaeth Saesneg

Mae cyfanswm y cofrestriadau ar gyfer TGAU Llenyddiaeth Saesneg yn dangos cynnydd o 20.7% yn haf 2019 o gymharu â haf 2018 (Tabl 3). Mae'n debygol bod y cynnydd hwn o ganlyniad i'r ffaith bod TGAU Llenyddiaeth Saesneg yn cyfrif tuag at elfennau llythrennedd mesurau perfformiad ysgolion o haf 2019.
Gwelwyd cynnydd mewn cofrestriadau ym mhob grŵp blwyddyn yn haf 2019 o gymharu â haf 2018, ac eithrio Blwyddyn 13. Gwelwyd y cynnydd mwyaf ar gyfer Blwyddyn 10, gyda chynnydd o 4,165 o gofrestriadau (80.2%).

**Tabl 3 Cofrestriadau Llenyddiaeth Saesneg yn ôl grŵp blwyddyn**

| Llenyddiaeth Saesneg | Blwyddyn 9 neu is | Blwyddyn 10 | Blwyddyn 11 | Blwyddyn 12 | Blwyddyn 13 neu uwch | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2019 | * | 9,355 | 19,630 | 120 | 10 | 29,120 |
| 2018 | * | 5,195 | 18,805 | 105 | 20 | 24,125 |
| 2017 | * | 2,055 | 14,640 | 75 | 10 | 16,780 |

*Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu – Casgliad Cofrestriadau yn ôl Grŵp Blwyddyn, 2018 a hwyrach –Cymwysterau Cymru; 2017 –* Ofqual

## TGAU Cymraeg Iaith a TGAU Llenyddiaeth Gymraeg

Mae 5,220 o gofrestriadau ar gyfer Cymraeg Iaith yr haf hwn, sy'n gynnydd o 11.0% o gymharu â haf 2018 (Tabl 4). Mae cofrestriadau Blwyddyn 11 ar gyfer Llenyddiaeth Gymraeg wedi cynyddu hefyd, o 3,320 yn 2018 i 3,685 yn haf 2019.

**Tabl 4 Cofrestriadau Cymraeg Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg yn ôl Grŵp Blwyddyn**

| Pwnc | Blwyddyn | Blwyddyn 9 neu is | Blwyddyn 10 | Blwyddyn 11 | Blwyddyn 12 | Blwyddyn 13 neu uwch | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cymraeg Iaith** | | | | | | | |
| | 2019 | 0 | 85 | 5,110 | 25 | * | 5,220 |
| | 2018 | 0 | 245 | 4,585 | 30 | * | 4,865 |
| | 2017 | 0 | 1,030 | 5,385 | 10 | 0 | 6,430 |
| **Llenyddiaeth Gymraeg** | | | | | | | |
| | 2019 | 0 | 0 | 3,685 | 10 | 0 | 3,695 |
| | 2018 | 0 | * | 3,320 | * | 0 | 3,325 |
| | 2017 | 0 | * | 3,325 | 0 | 0 | 3,330 |

*Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu – Casgliad Cofrestriadau yn ôl Grŵp Blwyddyn, 2018 a hwyrach –Cymwysterau Cymru; 2017* – Ofqual

## TGAU Cymraeg Ail Iaith

Caiff cymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith newydd ei ddyfarnu am y tro cyntaf yr haf hwn gan ddisodli'r cymwysterau TGAU a TGAU Cymhwysol cwrs llawn a chwrs byr blaenorol.  Y cymhwyster TGAU newydd yw'r unig gymhwyster sydd ar gael i fyfyrwyr sy'n astudio Cymraeg Ail Iaith mewn ysgolion. Gall myfyrwyr a allai fod wedi'u cofrestru ar gyfer y cwrs byr neu gymwysterau cymhwysol o'r blaen ond cael eu cofrestru bellach ar gyfer y cymhwyster TGAU newydd. O ganlyniad, mae newid sylweddol wedi bod i nifer y cofrestriadau ar gyfer y cymhwyster TGAU cwrs llawn (19,670) yr haf hwn o gymharu â'r cymhwyster TGAU cwrs llawn etifeddol yn 2018 (12,115) (gweler *Tabl 5*). O ystyried y newid ym maint a chyfansoddiad y garfan sy'n cofrestru ar gyfer y cymhwyster, yn ogystal â newidiadau i'r asesiadau o fewn y cymhwyster TGAU newydd, gall canolfannau weld mwy o amrywiad yng nghanlyniadau'r haf hwn o gymharu â blynyddoedd blaenorol.

**Tabl 5: Cofrestriadau Dros Dro yr Haf ar gyfer Cymwysterau TGAU Cymraeg Ail Iaith**

| Cymhwyster[(1)] | 2019 | 2018 |
|---|---|---|
| Cymraeg Ail Iaith (newydd) | 19,670 | Dd/G |
| Cymraeg Ail Iaith (cwrs llawn) (etifeddol) | Dd/G | 12,115 |
| Cymraeg Ail Iaith (cwrs byr) (etifeddol) | Dd/G | 5,645 |
| Cymraeg Ail Iaith Cymhwysol (cwrs llawn) (etifeddol) | Dd/G | 2,550 |
| Cymraeg Ail Iaith Cymhwysol (cwrs byr) (etifeddol) | Dd/G | 775 |
| **Cyfanswm** | **19,670** | **21,080** |

*Ffynhonnell: Casgliad Data Cofrestriadau yn ôl Grŵp Blwyddyn, Cymwysterau Cymru*
*(1) Mae pob cymhwyster yn gymhwyster TGAU Lefel 1/Lefel 2 CBAC.*